

## Rheoli ymddygiad: y dull cywir

1. Dylai'r polisi ymddygiad a'r gweithdrefnau cysylltiedig ganolbwyntio, fel eu prif bwrpas, ar greu a chynnal amgylchedd dysgu lle mae pob disgybl a phob aelod o staff yn cael eu parchu, lle gall pob disgybl gyflawni a llwyddo, a lle gall pob athro ac athrawes addysgu'n effeithiol.
2. Dylid cadw pob disgybl a phob aelod o staff yn ddiogel. Dylent allu astudio, gweithio a byw heb ofni trais, brawychu, aflonyddu, cam-drin neu darfu ar wersi.
3. Dylai ysgolion sefydlu dull eglur a chyson o reoli ymddygiad.
4. Dylai pob aelod o'r staff fod â'r hawl i dderbyn hyfforddiant a chymorth priodol gyda materion sy'n ymwneud ag ymddygiad, a dylai'r rhain fod ar gael iddynt.
5. Dylai'r ysgol weithio mewn partneriaeth â'i staff, yn ogystal ag undebau llafur, y rhieni a'r disgyblion, i ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r polisi ymddygiad.
6. Dylai polisi ymddygiad yr ysgol gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth am gydraddoldeb.
7. Ni ddylai'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer rheoli ymddygiad fod yn feichus nac yn rhy fiwrocratig.
8. Dylid rhoi'r grym i benaethiaid arfer eu barn broffesiynol yn gyfrifol wrth benderfynu a ddylid gwahardd disgyblion o'r ysgol.

Rhagor o wybodaeth

[www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom.html](http://www.nasuwt.org.uk/advice/in-the-classroom.html).

siaradwch  
â ni

029 2054 6080  
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk  
[www.nasuwt.org.uk](http://www.nasuwt.org.uk)